## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **17 Gorffennaf 2024**

**Teitl:** **Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn – 2024/25-2026/27**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adrodd am y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a ddiweddarwyd**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

### 1. Cyflwyniad

Ar 23 Ionawr 2024, cymeradwyodd y Cabinet y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiweddaraf ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/24 a 2026/27, a hynny fel rhan o'r broses gyffredinol o bennu'r gyllideb. Yn sgil cau cyfrifon 2023/24, mae angen diwygio a diweddaru'r Rhaglen i adlewyrchu'r canlynol:

- Yr ymrwymiadau a gariwyd ymlaen o 2023/24.
- Ail-broffilio'r cynlluniau a ariennir gan grantiau er mwyn adlewyrchu'r proffiliau diweddaraf ynghyd â'r grantiau newydd a gymeradwywyd.

### 2. Crynodeb Cyffredinol

Mae'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiweddaraf i'w gweld yn Atodiad A ac mae'n dangos bod £101m yn y Rhaglen Gyfalaf dros y 3 blynedd nesaf. Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25 yw £72.6m

### 3. Newidiadau Allweddol

**Ymrwymiadau a gariwyd ymlaen o 2023/24:**

Mae Atodiad B Adroddiad Alldro Rhaglen Gyfalaf 2023/24, yr adroddir arno ar wahân ar agenda'r cyfarfod hwn o'r Cabinet, yn dangos y cynlluniau a ariennir gan y Cyngor sydd ag ymrwymiadau yn 2024/25. Felly mae angen cario'r cynlluniau hyn a'r cyllid cysylltiedig (£12.7m) ymlaen.

**Ail-broffilio Cynlluniau a Ariennir gan Grant a Grantiau Newydd a Gymeradwywyd**

Mae amryw o gynlluniau grant wedi'u diweddaru, naill ai oherwydd grantiau newydd neu er mwyn adlewyrchu'r proffiliau diweddaraf a gymeradwywyd.

Yn ogystal, dyfarnwyd nifer o grantiau newydd – dyma'r prif rai:-

- Y Gronfa Teithio Llesol – Cyllid Craidd
- Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS (cam 3) 2024/25
- Llwybrau Diogel yn y Gymuned – cyswllt llwybr troed Rhiwgoch i Aberaeron 2024/25
- Terfynau Cyflymder 20mya 2024/25
- Y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Gwaith ar raddfa fach 24/25 Cwlfer Taliesin
- Gofal Plant (Cyllid Grantiau Bychain 2024/25)
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cronfa Her Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2023-25
- Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU – Mae'r Gyllideb Gyfalaf wedi gostwng £2.72m, mae hyn oherwydd ail-broffilio'r rhaniad yn y gyllideb, rhwng Cyfalaf a Refeniw.

**Diwygiadau ac ychwanegiadau o ran Cynlluniau a Ariennir yn Gyffredinol**

Mae'r cynllun Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff, am y tro, wedi'i dynnu o'r rhaglen tra bod opsiynau yn cael eu harchwilio ar gyfer datblygiadau / gwelliannau ehangach i'r Depo ym Mhenrhos.

Wal Gynnal yn Ysgol Gyfun Aberaeron – Cynllun newydd - £276k – Bydd y cynllun yn rhedeg dros ddwy flynedd ariannol – 2024/25 a 2025/26.

£60k yn cael ei gynnwys ar gyfer prosiect Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur. Ystyriwyd y cynllun a chytunwyd ar gyfraniad gan y Cabinet yn wreiddiol ar 30/03/21. Yn anffodus nid yw cyllid Llywodraeth Cymru ar gael bellach - y cynnig yw bod y Cyngor yn darparu cyllid, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy priodol ar achos busnes diweddaraf yr Ymddiriedolaeth.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na: nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi neu wasanaeth

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2024/25 a 2026/27, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiweddaraf.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Yn cydymffurfio

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim yn uniongyrchol

**Risg(iau):**
Perygl o gyllid annigonol os bydd gorwariant sylweddol.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol1992

**Papurau Cefndir:**
Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2024

**Atodiadau:**
Atodiad A – Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn 2024/25 – 2026/27

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Liz Jones, Cyfrifydd Cynorthwyol

**Dyddiad:**
05/07/2024

## Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn Arfaethedig 2024/25 - 2026/27

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 |
| **Ysgolion a Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) | 3,566 | 4,094 | **7,660** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Ysgol Henry Richards | 24 | - | **24** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Canolfan Trochi Iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau | | 250 | **250** | - | 1,500 | **1,500** | - | 3,658 | **3,658** |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol - Addasiadau i Adeiladau | - | 451 | **451** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| To Newydd Llwyn yr Eos | 250 | - | **250** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Darpariaeth Gofal Plant | - | 1,426 | **1,426** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| To Newydd yr Amgueddfa | 1,100 | - | **1,100** | | | | | | |
| Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol | 1,187 | - | **1,187** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Ysgol Gyfun Aberaeron - Wal Gynnal | 26 | | **26** | 250 | - | **250** | | | |
| Systemau gwresogi o dan y llawr - Ysgolion | 590 | - | **590** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Gwaith Brys mewn Ysgolion | 150 | - | **150** | 150 | - | **150** | 150 | - | **150** |
| **Cyfanswm - Ysgolion** | **6,893** | **6,221** | **13,114** | **400** | **1,500** | **1,900** | **150** | **3,658** | **3,808** |
| **Porth Cymorth Cynnar** | | | | | | | | | |
| Gwaith Brys mewn Canolfannau Llesiant | 267 | - | **267** | 50 | - | **50** | 50 | - | **50** |
| Cam 2 Uwchraddio Cyfleusterau Llesiant - Chwaraeon Cymru | 212 | 117 | **329** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,400 | - | **1,400** | 1,400 | - | **1,400** | 1,400 | - | **1,400** |
| Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi | 45 | - | **45** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Cynllun Tai Cymunedol | 600 | | **600** | 600 | | **600** | 500 | | **500** |
| Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol | - | 146 | **146** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo | 165 | - | **165** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau | 1,453 | - | **1,453** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol | 82 | - | **82** | 82 | - | **82** | - | - | **-** |
| **Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar** | **4,224** | **263** | **4,487** | **2,132** | **-** | **2,132** | **1,950** | **-** | **1,950** |

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 |
| **Yr Economi ac Adfywio** | | | | | | | | | |
| Gwaith Trin Carthion | 500 | - | **500** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Gwaith Brys Arall | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** |
| Adeiladau - Buddsoddi i Arbed Ffyrdd Newydd o Weithio | 175 | - | **175** | 175 | - | **175** | 175 | - | **175** |
| Buddsoddiadau mewn Cynlluniau Ynni | 1,252 | - | **1,252** | 250 | - | **250** | - | - | **-** |
| Rhaglen Datblygu Asedau | - | 180 | **180** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Neuadd y Farchnad Aberteifi | 108 | - | **108** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Rhaglen Adnewyddu Pomprennau | 50 | - | **50** | 50 | - | **50** | 50 | - | **50** |
| Grant Gwella Mynediad | - | 103 | **103** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Grant Adferiad Gwyrdd | - | 11 | **11** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Strata Florida | 60 | - | **60** | | | | | | |
| Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | **-** | 620 | **620** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Prosiectau Ffyniant Bro | **-** | 7,129 | **7,129** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio** | **2,245** | **8,043** | **10,288** | **575** | **-** | **575** | **325** | **-** | **325** |

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | | | | | | | | | |
| Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Priffyrdd | 2,080 | - | **2,080** | 2,080 | - | **2,080** | 2,080 | - | **2,080** |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 60 | - | **60** | 60 | - | **60** | 60 | - | **60** |
| Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Gwelliannau i Seilwaith Coridorau Bysiau TrawsCymru | - | 950 | **950** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Trawsnewid - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | - | 370 | **370** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC) | 8 | 121 | **129** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Arian Craidd y Gronfa Teithio Llesol 2024-25 | - | 500 | **500** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Y Gronfa Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS - Cam 1 | - | 300 | **300** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Dyraniad Craidd 20mya | - | 100 | **100** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Llwybrau Diogel yn y Gymuned - llwybr troed cyswllt Rhiwgoch i Aberaeron 24/25 | - | 358 | **358** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Goleuadau Stryd - Buddsoddi i Arbed | 110 | - | **110** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Seilwaith Parcio | 250 | - | **250** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth | - | 46 | **46** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont | - | 55 | **55** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Gwaith ar raddfa fach 24/25 Cwlfer Taliesin | - | 55 | **55** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Ffyrdd heb eu mabwysiadu - Nant Seilo, Penrhyncoch | - | 50 | **50** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth | - | 270 | **270** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog | - | 22 | **22** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas | - | 38 | **38** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron | 26,611 | - | **26,611** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Cerbydau Newydd i'r Fflyd | 1,170 | - | **1,170** | 1,500 | - | **1,500** | 1,500 | - | **1,500** |
| **Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **30,289** | **3,235** | **33,524** | **3,640** | **-** | **3,640** | **3,640** | **-** | **3,640** |

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM | Cyllid Cyffredinol | Grantiau | CYFANSWM |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Porth Gofal** | | | | | | | | | |
| Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** |
| Y Gronfa Tai â Gofal - Llety Diogel i Blant | - | 1,013 | **1,013** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Uwchraddio Cartrefi Preswyl | 830 | - | **830** | 256 | - | **256** | - | - | **-** |
| Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun | 200 | - | **200** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Cyfanswm - Porth Gofal** | **1,130** | **1,013** | **2,143** | **356** | **-** | **356** | **100** | **-** | **100** |
| **Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig** | | | | | | | | | |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Ceredigion a Phowys) | - | 3,834 | **3,834** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig** | **-** | **3,834** | **3,834** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | | | | | | | | | |
| Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh | 439 | - | **439** | 300 | - | **300** | 380 | - | **380** |
| Refeniw Digital360 a Buddion | 76 | - | **76** | | - | **-** | | - | **-** |
| TGCh- System meddalwedd Ceri | 80 | - | **80** | | - | **-** | | - | **-** |
| **Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid** | **595** | **-** | **595** | **300** | **-** | **300** | **380** | **-** | **380** |

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 | Cyllid Cyffredinol £'000 | Grantiau £'000 | CYFANSWM £'000 |
| **<u>Cyllid a Chaffael</u>** | | | | | | | | | |
| Cynllun Grantiau Cymunedol | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** | 100 | - | **100** |
| **Cyfanswm - Cyllid a Chaffael** | **100** | **-** | **100** | **100** | **-** | **100** | **100** | **-** | **100** |
| **<u>Diwygio Gwasanaethau</u>** | | | | | | | | | |
| Cyfarwyddyd Cyfalafu - Diwygio Gwasanaethau | 100 | - | **100** | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Cyfanswm - Diwygio Gwasanaethau** | **100** | **-** | **100** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH** | **45,576** | **22,609** | **68,185** | **7,503** | **1,500** | **9,003** | **6,645** | **3,658** | **10,303** |
| Arian wrth gefn | 250 | - | **250** | 350 | - | **350** | 350 | - | **350** |
| Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau | 200 | 4,000 | **4,200** | 200 | 4,000 | **4,200** | 200 | 4,000 | **4,200** |
| **Cyfanswm - Arian wrth gefn** | **450** | **4,000** | **4,450** | **550** | **4,000** | **4,550** | **550** | **4,000** | **4,550** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL** | **46,026** | **26,609** | **72,635** | **8,053** | **5,500** | **13,553** | **7,195** | **7,658** | **14,853** |

| | 2024/25 Diweddaraf | | | 2025/26 Arfaethedig | | | 2026/27 Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllid Cyffredinol £'000** | **Grantiau £'000** | **CYFANSWM £'000** | **Cyllid Cyffredinol £'000** | **Grantiau £'000** | **CYFANSWM £'000** | **Cyllid Cyffredinol £'000** | **Grantiau £'000** | **CYFANSWM £'000** |
| **<u>CYLLID RHAGLENNI</u>** | | | | | | | | | |
| 24/25 Dyraniad Grant Cyfalaf Cyffredinol £2.966m a Benthyca â Chymorth £2.888k | 5,854 | - | **5,854** | 5,854 | | 5,854 | 5,854 | | **5,854** |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol a ddygwyd ymlaen o 23/24 i 24/25 | 2,969 | - | **2,969** | | | - | | | **-** |
| Benthyca â Chymorth a ddygwyd ymlaen o 23/24 i 24/25 | 2,891 | - | **2,891** | - | - | - | - | - | **-** |
| Benthyca â Chymorth a ddygwyd ymlaen o 22/23 i 24/25 | 160 | - | **160** | | | | | | |
| Benthyca Darbodus â Chymorth (Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir) | 22,620 | - | **22,620** | - | - | - | - | - | **-** |
| Cronfa Gyffredinol Derbyniadau Cyfalaf | 1,545 | - | **1,545** | - | - | - | - | - | **-** |
| Derbyniadau cyfalaf yn gwerthu Ysgolion | 109 | - | **109** | - | - | - | - | - | **-** |
| Derbyniadau Cyfalaf o Fenthyciadau wedi'u hymrwymo yn y Rhaglen | 45 | - | **45** | - | - | - | - | - | **-** |
| Derbyniadau Cyfalaf sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 215 | - | **215** | - | - | - | - | - | **-** |
| Datblygu Addysg yng Nghronfeydd wrth gefn Ceredigion | 3,363 | - | **3,363** | - | - | - | - | - | **-** |
| Cronfeydd wrth gefn corfforaethol wedi'u clustnodi | 4,813 | - | **4,813** | 1,319 | - | **1,319** | 561 | - | **561** |
| Cyfraniad Refeniw/Wrth Gefn | 1,442 | - | **1,442** | 880 | - | **880** | 780 | - | **780** |
| Grantiau | - | 26,609 | **26,609** | - | 5,500 | **5,500** | - | 7,658 | **7,658** |
| **CYFANSWM CYLLID RHAGLENNI** | **46,026** | **26,609** | **72,635** | **8,053** | **5,500** | **13,553** | **7,195** | **7,658** | **14,853** |